**Dyddiad:** **Dydd Mercher 5ed Chwefror 2003**

**Lleoliad:** **Ystafelloedd Bwyllgora 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Grwp Strategaeth Gofal Cymru**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r diweddaraf am waith Grwp Strategaeth Gofal Cymru. Bydd Cadeirydd y Grwp, yr Athro Ken Woodhouse, yn rhoi cyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar waith y Grwp hyd yma. Mae yna wybodaeth yn Atodiad B am ddatblygiadau diweddar sy'n effeithio ar y sector gofal yng Nghymru.

## Cylch gwaith Grwp Strategaeth Gofal Cymru

2. Cafodd Grwp Strategaeth Gofal Cymru ei gyfarfod cyntaf fis Mehefin diwethaf. Cafodd ei sefydlu fel grwp gorchwyl a gorffen i ddarparu cyngor. Gofynnwyd iddo:

- roi ffocws Cymreig i'r trafod am ddyfodol y sector gofal gyfan (h.y. gan gynnwys gofal preswyl, gofal yn y cartref, a'r gwasanaethau gofal sy'n ategu gwasanaethau tai);
- rhoi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector gofal; a
- rhoi fframwaith i bartneriaid allweddol i ddatblygu sector gofal sy'n hyfyw, hyderus ac ymatebol, â'r nod o ddarparu gwasanaethau o safon. Hynny yn y lle cyntaf, yn y tymor canolig.

## Aelodau'r Grwp

3. Mae aelodau'r grwp wedi'u rhestru yn Atodiad A. Mae Mr Patrick Pope, darlithydd yn y Gwyddorau Cymdeithasol Cymwysedig ym Mhrifysgol Abertawe yn helpu trwy gynghori'r grwp (mae hefyd yn gweithio gyda'r SSIW ar faterion tebyg). Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sy'n rhoi gwasanaethau ysgrifenyddol i'r grwp.

4. Mae'r Grwp wedi cwrdd bedair gwaith. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r gwaith y mae'r grwp wedi'i wneud hyd yn hyn. Hyd yma, mae'r grwp wedi bod yn edrych ar natur y sector gofal yng Nghymru, o safbwynt y ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am wasanaethau gofal, a'r ffactorau sy'n effeithio ar y cyflenwad sy'n cynnwys capasiti, gweithlu a chomisiynu. Y gwaith hwn fydd sylfaen yr adroddiad a

gaiff ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth. A hwnnw yn ei dro fydd sylfaen strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y sector gofal am y tymor canolig i hir. Hefyd, mae'r Grwp wedi ystyried a chynnig cyngor ar nifer o bynciau yn y maes y mae gofyn atebion mwy buan iddynt. Bydd y rhain hefyd yn berthnasol i'r strategaeth.

**Perthynas â'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru**

5. Bydd gwaith y Grwp Strategaeth Gofal ar drywydd gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn gyfraniad pwysig at yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a lansiwyd gan y Gweinidog Cyllid ar 15fed Hydref 2002. Mae rolau'r Grwp a'r Adolygiad yn debyg. Yn wir, mae'r Arolygiad a'r Grwp ar lefelau Bwrdd y Prosiect, Rheolwyr y Prosiect a'r Grwp Cyfeirio yn rhannu llawer o'r un aelodau.

**Y Darlun sy'n Ymddangos**

6. Ar hyn o bryd, mae'r grwp yn canolbwyntio'i sylw ar yr henoed a bydd yn edrych ar y gwasanaethau i grwpiau bregus eraill nes ymlaen. Mae'r grwp wedi adolygu polisïau a thueddiadau ynghyd â'r ffactorau sy'n sbarduno'r newidiadau sy'n effeithio ar y sector gofal. Ar gyfer y gwaith hwn, y man cychwyn yw amcanion polisi Llywodraeth y Cynulliad ar yr henoed a ddisgrifir yn 'Cynllun Strategol i Gymru' 2000 a Strategaeth yr Henoed a lansiais yn swyddogol ar 30ain Ionawr. Gwaith y Grwp hyd yma:-

- ceisio pennu set o egwyddorion i'r gwasanaethau a ddarperir i'r henoed, yn ymdrin â chynnal asesiadau priodol, amseroldeb, rhoi dewis ac amddiffyniad digonol, cynllunio effeithiol, a'r cyfan yn seiliedig ar safonau penodol, a meini prawf agored a theg i ddewis pwy sy'n gymwys;
- edrych ar yr hyn sy'n dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir a'r galw amdanynt gan gynnwys newid demograffig, tai, iechyd a ffordd o fyw. Cafodd y prif ystyriaethau demograffig eu disgrifio'n fanwl yn Strategaeth yr Henoed.
- edrych ar dueddiadau diweddar yn y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys dadansoddiad gwaith ymchwil Nuffield 1998;
- defnyddio addasiad o fframwaith y Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd i ddiffinio tri grwp o henoed, yn ôl y ffordd y mae eu hanghenion am ofal yn cael eu diwallu: y rheini sydd ddim yn derbyn unrhyw gefnogaeth gyhoeddus, y rheini sy'n derbyn peth cefnogaeth a'r rheini sy'n derbyn llawer o gefnogaeth. Mae'r Grwp wedi clustnodi prif risgiau a gofidiau pob grwp ac wedi datblygu amcanion strategol ar gyfer y gwasanaethau gofal sy'n addas i bob grwp. Y themâu bras yw hybu annibyniaeth, a helpu pobl i aros cyhyd ag y medrant ar eu lefel bresennol o ddibyniaeth;
- wedi dechrau edrych ar y prif angenrheidiau i gyflawni amcanion strategol pob grwp neu waith ymchwil neu ddatblygu pellach.

7. Mae'r Uned Gwasanaethau Cymdeithasol Personol yn Ysgol Economeg Llundain wedi creu model ystadegol i ragweld y galw ymhlith yr henoed am wasanaethau gofal cartref a chartrefi gofal hyd at 2030. Mae'r Grwp wedi comisiynu'r Uned i baratoi rhagolygon ar gyfer Cymru sy'n seiliedig ar nifer o ragdybiaethau am newidiadau i iechyd a lles a newidiadau yn y dewis a wneir gan yr henoed sydd ag angen gwasanaethau arnynt. Bydd hwn yn gyfraniad pwysig at ddadansoddi'r galw tebygol am

wasanaethau, yn enwedig y rheini yn y trydydd grwp. Dylai'r rhagolygon fod ar gael yn y man.

8. Mae'r Grwp wedi ystyried nifer o ffactorau hefyd sy'n ymwneud â'r ochr gyflenwi ac sy'n dylanwadu'n drwm ar ansawdd a lefel y gofal sy'n debygol o fod ar gael i bob grwp. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys recriwtio, hyfforddi a chadw gweithwyr gofal yn y gwasanaethau preswyl a gofal cartref; ffyrdd i gynnal sefydlogrwydd y sector; ac arferion comisiynu da. Bu hefyd yn ystyried materion trawsffiniol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys effaith derbyn cleifion argyfwng i'r sector aciwt ac oedi wrth drosglwyddo o'r sector aciwt; rôl gofal canolraddol a gofal sylfaenol; ac effaith 'rhybudd cynnar', 'ymateb chwim' a systemau eraill i leihau'r risg o orfod anfon claf i ysbyty neu ei leoli mewn argyfwng.

9. Bydd y cyflwyniad i'r Pwyllgor yn ymdrin yn fanylach â'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma yn y meysydd hyn.

10. Bu'r Grwp yn ystyried y canllaw drafft "Hybu Partneriaethau Gofal: comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol" a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghori ym mis Hydref 2002. Bydd yn cael ei gyhoeddi fel canllaw statudol ym mis Ebrill eleni. (Mae yna gopïau o'r drafft ymgynghori yn y Llyfrgell ac ar y Fewnrwyd.)

11. Mae'r canllaw'n fframwaith i ddarparwyr a chomisiynwyr gofal allu cydweithio â'i gilydd yn y dyfodol. Yr amcan yw meithrin perthynas gydweithio agosach, cyfathrebu da, a chydweithio adeiladol wrth ddarparu gwasanaethau cymorth i oedolion. Y nod yw meithrin ffyrdd o weithio a fydd:

- yn hybu canlyniadau positif a gofal o ansawdd da i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr;
- hybu cyd-ymddiriedaeth;
- gwneud y sector yn fwy sefydlog, ehangu ei gapasiti ac ennyn hyder ynddo, trwy gynllunio a chomisiynu mwy strategol;
- annog pobl i weithio mewn ffordd agored; ac
- a fydd yn arwain at driniaeth deg i bawb.

12. Roedd y Grwp yn cefnogi'r angen am ganllaw o'r fath ac maent yn ei gymeradwyo fel cyfraniad pwysig at gynnal sefydlogrwydd ac ennyn hyder.

13. Ar hyn o bryd, dim ond llond llaw o awdurdodau lleol o Gymru sydd â ffordd ffurfiol o gymryd costau darparwyr i ystyriaeth wrth drafod codi ffïoedd cartrefi gofal. Wedi edrych ar y canllaw comisiynu drafft, mae'r Grwp wedi gweld bod angen i bob awdurdod wneud hyn a bod angen ffordd safonol i glustnodi costau a mesur eu heffaith. Mae hyn yn gyson â gogwydd y canllaw drafft at fod yn fwy agored a thryloyw, at roi triniaeth deg a hybu sefydlogrwydd a hyder at y dyfodol.

14. Pan fydd y Grwp wedi trafod y pwnc hwn, bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am fwrw ymlaen â gwneud rhagor i helpu awdurdodau lleol i ddyfeisio dulliau mwy cyson o greu modelau ariannol. Dylai hynny arwain at ddatblygu pecyn cymorth y gall pob cyngor ei ddefnyddio yn eu trafodaethau lleol. Y sector annibynnol fydd yn gwneud y gwaith hwn ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu peth arian i dalu am gyfraniad ymgynghorwyr at waith WLGA.

**Gofal Nyrsio a Noddir gan y GIG**

15. Ar 2il Rhagfyr 2001, daeth y GIG yng Nghymru'n gyfrifol am dalu'r elfen nyrsio mewn gofal preswyl i "hunan-arianwyr", fel nad oes neb mewn cartref yn gorfod talu am wasanaethau nyrs gofrestredig.

16. O 1af Ebrill eleni, ein bwriad oedd rhoi'r cyfrifoldeb i'r GIG am ariannu'r elfen nyrsio o ofalu am y rheini y telir am eu gofal preswyl gan yr awdurdod lleol. Câi'r drefn ariannu rhwng llywodraeth leol a'r GIG ei newid i adlewyrchu'r cyfrifoldeb newydd hwn.

17. Bu'r Grwp yn ystyried y trefniadau arfaethedig ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau oddi wrth yr awdurdodau lleol i'r GIG. Mynegwyd gofid yn arbennig:

- y gallai'r trefniadau newydd ychwanegu heb eisiau at faich gweinyddol cartrefi nyrsio preswyl; a
- ynghylch pryd, pan gaiff unigolyn ei dderbyn i ysbyty, y daw'r taliadau i gartrefi gofal am ddarparu gofal nyrsio i ben.

18. Roedd y Grwp o blaid y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i gyllidebau cyfun, y trefniadau eraill i symleiddio'r prosesau talu a'r cynnig y dylai fod yna gyfnod o rás rhwng derbyn claf mewn ysbyty a dod â'r taliadau am yr elfen nyrsio i'r cartref annibynnol i ben. Cafodd canllaw drafft ar y trefniadau eu cyhoeddi at bwrpas ymgynghori ar 29ain Tachwedd 2002 tan 31ain Ionawr.

19. Yn y drafodaeth ar Setliad Refeniw Llywodraeth Leol yn y cyfarfod llawn ar 29ain Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ein bod wedi penderfynu gohirio trosglwyddo arian yn ffurfiol rhwng llywodraeth leol a'r GIG tan fis Ebrill 2004. Hynny er mwyn gallu defnyddio data mwy diweddar i roi ystyriaeth briodol i'r newidiadau mawr a fu yng ngwasgariad lleoedd nyrsio preswyl dros y 18 mis diwethaf.

**Blaen raglen waith**

20. Yn y ddau gyfarfod nesaf, bydd y Grwp yn caboli'i gasgliadau ac yn crisialu ei syniadau er mwyn gallu cwblhau'r adroddiad, a fydd yn cynnwys argymhellion ymarferol, erbyn diwedd mis Mawrth. I'r perwyl hwn, bydd yn ystyried yn arbennig:

- cynllunio capasiti gan gynnwys gwelyau gofal preswyl a gwelyau gwasanaeth iechyd;

- amcangyfrifon o'r galw tebygol yn y dyfodol am wasanaethau gofal, gan ddefnyddio model tair-haen i helpu i benderfynu ar flaenoriaethau strategol gwahanol, a sut caiff y pwysau ei rannu rhwng rhannau gwahanol y system ofalu;
- newidiadau yn sefyllfa ariannol yr henoed gan gynnwys effaith y gyfran uwch sy'n berchen ar eu cartrefi, newidiadau i'r system les a budd-daliadau a threfniadau codi tâl;
- gweithlu, gan gynnwys recriwtio, hyfforddi a chadw staff yn y sector preswyl a'r sector gofal yn y cartref;
- cyfraniad gwasanaethau iechyd sylfaenol a chanolraddol at y galw am ofal a'r gwasanaeth a ddarperir;
- helpu datblygiad cyd-gynllunio strategol lleol, er enghraifft trwy Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- mecanweithiau tymor hir cenedlaethol a lleol i gadw golwg ar y sector, er mwyn rhagweld newid yn y galw a'r cyflenwad a pharhau i annog cyrff i gydweithio â'i gilydd;
- rôl y sector tai - dylunio, cynllunio, lleoliad, daliadaeth - i ddarparu amrywiaeth o opsiynau i gwrdd ag anghenion 'lefel is'
- patrymau newydd ar ofal lefel isel gan gynnwys gofal hyblyg yn y cartref, "floating support" a ffurfiau eraill ar ofal yn y gymuned;
- cyfraniad technoleg newydd at ddylunio a chyflenwi cymhorthion a chyfarpar;

**Cydymffurfio**

21. Grwp gorchwyl a gorffen yw Grwp Strategaeth Gofal Cymru i roi cyngor i'r Pwyllgor. Cafodd ei sefydlu o dan adrannau 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru i ategu swyddogaethau iechyd a gofal cymdeithasol y Cynulliad. Mae'r materion sy'n ymwneud â rheoleiddio gofal yn deillio o'r pwerau yn Neddf Safonau Gofal 2000 a daw'r pwerau i roi canllawiau statudol i awdurdodau lleol o adran 7 Deddf Llywodraeth Leol 1970. Mae'r holl bwerau perthnasol wedi'u datganoli i Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

22. Nid oes gobygiadau ariannol uniongyrchol yn codi o'r papur hwn. Daw'r arian i dalu costau Grwp Strategaeth Gofal Cymru o gyllidebau presennol yn y BEL Gofal Hyblyg a Chydweithio a Chostau Rhedeg yr Adran fel ag sy'n briodol.

**Camau i'w cymryd**

23. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- dderbyn y cyflwyniad

- trafod cynnwys y cyflwyniad a'r papur

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Andrew Powell-Chandler, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol